Cofnodion o Gyfarfod Arbennig o'r Cyngor Llawn a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, Llandeilo ar ddydd Mercher 15fed Medi 2004

Presennol: *Cynghorwyr:* Cyng Mrs R Bellamy (Maer), Cyng C. Jenkins (Dirprwy Faer), Cyng Mrs C Leadbeater, Cyng Ms F A Murphy, Cyng D A Jones, Cyng Mrs P Steane Price.

Arall: R. Huw Griffiths (Swyddog Technegol), Clerc
Cyflwynodd y Maer y drafodaeth ar sicrhau bod prosesau'r Cyngor yn fwy effeithiol o ystyried y problemau a gafwyd yn cadw clerc y dref a'r sylwadau a gafwyd gan glercod tref blaenorol.

6211 **Ymddiheuriadau**: Cynghorydd Sir Ieuan Jones, Cyng Hugh Towns, Cyng Paul Faulkener.

6212 **Clerc y Dref:**
Amcangyfrifwyd bod 4 wythnos o gyflog yn ddyledus i'r clerc presennol (3 + 1 wythnos o wyliau). Cysylltir â Pay Connect mewn perthynas â thalu'r hyn sy'n ddyledus.

6213 **Cyfarfodydd Cynllunio a Chyllid:**
Wnaeth y Cyngor drafod cael gwared o'r Pwyllgorau Cynllunio a Chyllid, ac yn eu lle byddai un cyfarfod o'r Cyngor Llawn y mis, i gychwyn am 7.00pm pan y trafodir materion Cyllid a Chynllunio.

Bydd aelodau unigol yn gyfrifol am faterion cynllunio a chyllid a phrosiectau arbennig.

Bydd yn rhaid newid y Rheoliadau Sefydlog er mwyn ymgymryd â'r newidiadau hyn.

6214 **Swyddog Technegol:**
Ni chymerwyd unrhyw gamau i gael rhywun yn lle Huw Griffiths fel Swyddog Technegol am y tro hyd nes y gellir cynnal trafodaethau pellach.

6215 **Clerc Dros Dro i'r Dref:**
Penodwyd June Stait gan y Cyngor i weithio fel clerc a swyddog ariannol dros dro ar raddfa gyflog Llywodraeth Leol 15-21 yn cychwyn ar bwynt 17 £7.74 yr awr ar gyfartaledd o 15 awr yr wythnos.

6216 **Hysbyseb am Glerc y Dref:**
Bydd hysbyseb yn cael ei osod yn Y Lloffwr, Post Datum, y wefan a'r hysbysfwrdd ar gyfer y swydd Clerc y Dref. Y Maer sydd i benderfynu ar yr oriau sy'n angenrheidiol i'r clerc weithio yn y swyddfa.

6217 **Caban:**
Huw Griffiths, Swyddog Technegol i ymgymryd â gwaith ar y caban er mwyn cysylltu'r d r, trwsio goleuadau a gosod golau sy'n sensitif i

symudiadau uwchben y drws y tu allan er mwyn goleuo'r grisiau i lawr y fynedfa.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.00 pm.